Pam syrthio?

Atal syrthio ym myd amaeth

Mae hwn yn fersiwn gwe-gyfeillgar o daflen INDG369(rev1), a ddiwygiwyd 03/07

Cyflwyniad

Syrthio o uchder yw un o brif achosion damweiniau angheuol ym myd amaeth. Mae llawer o ddamweiniau sy'n cynnwys syrthio yn digwydd wrth adeiladu neu gynnal a chadw adeiladau amaethyddol neu adeiladau fferm eraill. Mae'r mathau hyn o waith yn cynnwys gweithio ar uchder, ac mae angen rhyw fath o fynediad dros dro i uchder, er enghraifft ysgolion, sgaffaldiau, neu lwyfannau gweithio dros dro eraill.

Bydd pobl yn aml yn syrthio am na chymerwyd unrhyw ragofalon, neu oherwydd bod offer a ddefnyddir yn ddiffygiol, yn amhriodol, neu'n cael ei ddefnyddio'n anghywir. Yn aml bydd pobl sydd ar fin gwneud gwaith yn credu mai 'dim ond ychydig funudau y bydd yn ei gymryd', a byddant yn cymryd risg yn y gobaith y bydd bod yn ofalus yn ddigon.

Daeth y Rheoliadau Gweithio ar Uchder i rym ym mis Ebrill 2005. Maent yn cwmpasu pob gweithgaredd lle y gallai pobl syrthio neu hanafu eu hunain. Mae'r dyletswyddau ar gyflogwyr, pobl hunangyflogedig ac eraill sy'n rheoli gwaith ar uchder. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod unrhyw waith a wneir ar uchder yn cael ei gynllunio, ei oruchwylio a'i wneud yn gywir gan bobl sy'n gymwys i wneud y gwaith.

Mae'r astudiaethau achos a ddefnyddir yn y llyfryn hwn yn seiliedig ar ddamweiniau gwirioneddol yr ymchwiliwyd iddynt gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), ac fe'u dilynir gan enghreifftiau o arfer da a fydd yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith.

PEIDIWCH Â DOD YN UN O'R YSTADEGAU . . .

Sicrhewch eich bod yn cynllunio gwaith ar uchder yn gywir

- Peidiwch â chychwyn gweithio ar uchder nes y byddwch wedi cynllunio'n gywir sut y byddwch yn ei wneud, a nes y byddwch wedi ystyried a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith dan sylw.
- Sicrhewch eich bod wedi ystyried pob ffordd y gallech fod mewn perygl o syrthio. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu atgyweirio to, mae'r ffyrdd y gallech syrthio yn cynnwys: drwy'r to, drwy ffenestr yn y to, oddi ar ymyl y to, neu wrth ddringo ar y to.
- Sicrhewch eich bod wedi meddwl am drefniadau ar gyfer achub mewn argyfwng.
- Sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'r risgiau dan sylw. Nid yw 'bod yn ofalus' yn ddigon ynddo'i hun. Mae'n rhaid i chi gymryd rhagofalon priodol.

Dylech osgoi gweithio ar uchder ble bynnag y bo modd

- Ystyriwch a oes ffyrdd newydd, neu ffyrdd mwy diogel eraill o wneud y gwaith. Er enghraifft, os oes angen atgyweirio to a allwch osgoi mynd arno drwy ei atgyweirio'n ddiogel oddi isod?

Defnyddiwch fesurau ar y cyd cyn mesurau personol

- Dewiswch fesurau ar y cyd, megis llwyfan gweithio, cyn mesurau personol, megis harnais diogelwch.
- Er enghraifft, os oes angen i chi fynd ar ben llwyth i orchuddio lorïau â chynfas, gofynnwch i'ch hun:
  - A oes angen i mi orchuddio'r llwyth â chynfas o gwbl? A yw'n arferiad neu a yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith?
  - A allaf ddefnyddio system lle y mae'r lori yn gorchuddio'r llwyth ei hun neu un lle y gellir gorchuddio'r llwyth o lefel y ddaear?
  - A allaf orchuddio'r llwyth â chynfas o ddarn o offer ar y cyd, ee gantri?
  - A yw'n ymarferol i mi adeiladu gantri?

Pan nad yw'r un o'r uchod yn ymarferol, efallai y bydd angen i chi ddewis y system atal syrthio bersonol a fydd fwyaf effeithiol wrth leihau'r risg y byddwch yn cael eich anafu.

Dewis yr offer cywir

- Penderfynwch ba offer sydd ei angen i wneud y dasg. Yn ddelfrydol dylai eich rhagofalon eich atal rhag syrthio, er enghraifft gan ddefnyddio rheiliau amddiffyn ar ymyl to, neu fyrddau cropian ar do bregus.
- Os nad oes gennych yr offer sydd ei angen arnoch, ewch i'w nôl. Peidiwch â mentro gyda'ch ysgol os dylech fod yn defnyddio sgaffald tŵr. Ar gyfer un dasg, efallai y byddwch yn penderfynu mai'r hyn sydd ei angen arnoch mewn gwirionedd yw llwyfan gweithio integredig i'w ddefnyddio ar eich wagen fforch-godi. Ar gyfer tasg arall, efallai y bydd angen cyflogi contractwyr i rigio rhwyd achub cyn atgyweirio to bregus. Gall peidio â defnyddio'r offer cywir er mwyn arbed arian arwain at anaf neu farwolaeth, a gallech gael eich erlyn os byddwch wedi torri'r gyfraith.

Archwilio a chynnal a chadw offer

- Sicrhewch nad oes unrhyw ddiffygion mewn unrhyw offer a ddefnyddiwch. Archwiliwch offer yn rheolaidd.

Dewis a hyfforddi

- Nid yw rhai pobl yn addas i weithio ar uchder a gallent beryglu pobl eraill, er enghraifft os ydynt yn dioddef o'r bendro. Ni ddylid gofyn iddynt wneud y math hwn o waith.
- Mae angen gwybodaeth, sgiliau a phrofiad priodol ar y rhai sy'n addas er mwyn iddynt weithio'n ddiogel, neu mae'n rhaid iddynt gael eu goruchwylio gan rywun arall sy'n meddu arnynt.
- Sicrhewch fod offer yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Efallai y bydd angen hyfforddiant a/neu oruchwyliaeth.

Gweler 'Darganfod mwy' am ganllawiau manylach ar y Rheoliadau.

Syrthio drwy doeon bregus

Ym myd amaeth, mae tua hanner y marwolaethau a'r anafiadau difrifol sy'n digwydd o ganlyniad i syrthio yn deillio o waith ar doeon bregus. Toeon yw'r rhain sydd wedi'u gorchuddio â dalenni o ddeunyddiau na fyddant yn dal pwysau person yn ddiogel ac a all chwalu heb rybudd, er enghraifft dalenni to sment ffibr (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel 'sment asbestos'), dalenni metel rhydlyd, a llawer o fathau o ddalenni ffenestri to.

Bu farw **ffermwr** ar ôl iddo syrthio drwy do bregus. Aeth ar ben y to i lanhau mwsogl o hen ddalenni sment asbestos a'u harchwilio cyn rhoi dalenni metel newydd yn eu lle. Chwalodd y to o dan ei bwysau a syrthiodd tua 3 m ar lawr concrid, gan ddioddef anafiadau difrifol i'w ben. Bu farw bum niwrnod yn ddiweddarach.

- Tybiwch bob amser fod toeon yn fregus oni allwch gadarnhau fel arall.
- Peidiwch byth â mentro ar unrhyw ran o do bregus heb ddefnyddio llwyfannau i ddal eich pwysau a heb sicrhau bod gennych ffordd o leihau canlyniadau cwymp.
- Gosodwch arwyddion priodol ar adeiladau sydd â thoeon bregus, yn arbennig ger mannau lle y gellir cael mynediad i'r toeon.

Cafodd **gweithiwr fferm** ei ladd pan syrthiodd 4 m drwy do adeilad fferm. Roedd yn un o ddau gyflogai profiadol a oedd yn gorffen gwaith atgyweirio ar y to y dechreuwyd arno y diwrnod cynt. Roedd yn defnyddio un bwrdd sgaffald i gerdded ar y to ac roedd wedi bod yn sefyll ar hwn tra'n torri i ffwrdd rai o'r dalenni to sment ffibr a oedd wedi'u difrodi â thorrwr disg. Wrth iddo godi ar ei draed ar y bwrdd ar ôl torri'r dalenni, collodd ei gydbwysedd, a syrthiodd yn ôl drwy'r to i'r llawr concrid oddi tanodd.

- Sicrhewch fod llwyfannau gweithio:
  - yn ddigon llydan i'ch galluogi i weithio'n ddiogel a mynd yn ôl ac ymlaen i'ch gweithle gydag unrhyw offer;
  - yn ddigon hir i roi digon o gynhaliaeth ar draws rhannau o'r to, er enghraifft dylent groesi o leiaf dair trawslath. Ar do ar oleddf efallai y bydd angen ysgol do a wnaed i'r pwrpas.
- Sicrhewch y darperir digon o lwyfannau ar y to. Peidiwch â defnyddio pâr o lwyfannau i 'neidio' ar draws to.
- Sicrhewch na fyddwch yn syrthio drwy'r to bregus gerllaw'r llwyfan drwy ddarparu:
  - rhwyd achub, sgaffaldwaith neu rywbeth tebyg a osodwyd yn gywir, er enghraifft pentwr addas o fêls o dan ochr isaf y to;
  - rheiliau amddiffyn a throedfyrddau addas, neu rywbeth tebyg wrth ymylon y llwyfan;
  - gorchuddion addas eraill dros unrhyw ddeunydd bregus.
- Peidiwch byth â cherdded ar hyd llinell bolltau'r trawslathau. Mae'n debyg i gerdded ar raff dynn ac nid yw'n rhoi unrhyw amddiffyniad o gwbl.
- Mae'n rhaid codi a gostwng offer a deunyddiau yn ddiogel i'r to ac oddi arno fel na all unrhyw beth syrthio ohono neu drwyddo.

Syrthio drwy ffenestri to

Ceir dalenni ffenestri to bregus yn aml mewn toeon sydd fel arall yn gadarn. Os nad ydych yn nodi'r dalenni hyn ac os nad ydych yn cymryd rhagofalon priodol, gall y canlyniadau fod yn drychinebus.

Bu farw **ffermwr** ar ôl iddo syrthio 4 m drwy ffenestr to wrth atgyweirio to ysgubor ar fferm gyfagos. Er mwyn cyrraedd y rhan o'r to dalenni tun yr oedd angen ei hatgyweirio bu'n rhaid iddo fynd heibio i sawl ffenestr to heb ei gorchuddio neu heb ffens o'i hamgylch. Roedd ei gymydog, a oedd hefyd yn ffermwr, wedi bod yn estyn deunyddiau iddo ond roedd wedi mynd i wneud diod pan ddigwyddodd y ddamwain. Cafwyd y ffermwr a oedd yn atgyweirio'r to yn lled-ymwybodol o dan ffenestr to wedi torri ac aed ag ef i'r ysbyty. Bu farw naw diwrnod yn ddiweddarach o anafiadau i'r pen.

- Edrychwch yn ofalus i weld a oes unrhyw ffenestri to mewn toeon nad ydynt yn fregus am y gallant fod yn anodd eu gweld. Efallai y bydd rhywun wedi paentio drostynt. Yng ngolau llachar yr haul gallant ymdoddi i'r dalenni o'u hamgylch.
- Cymerwch ragofalon i atal syrthio pryd bynnag y mae'r gwaith yn cynnwys mynd heibio i ffenestri to bregus neu weithio'n agos atynt. Er enghraifft:
  - gosodwch orchuddion cadarn, addas dros y ffenestri to;
  - rhowch reiliau amddiffyn a throedfyrddau addas neu rywbeth tebyg o amgylch y ffenestri to;
  - rhowch rwyd achub, sgaffald neu rywbeth tebyg (ee pentwr addas o fêls) yn union o dan wyneb y to.
- Ystyriwch gymryd rhai mesurau amddiffynnol parhaol, er enghraifft gosodwch rwyll ddur gref uwchben neu o dan y ffenestri to.
- Sicrhewch fod mannau peryglus wedi'u nodi'n glir.



Syrthio oddi ar ymylon agored

Os ydych yn gweithio ar do fel arfer bydd angen eich diogelu rhag syrthio oddi ar ymyl y to. Yn ogystal â gwaith ar doeon, gall nifer o dasgau cynnal a chadw eraill ym myd amaeth gynnwys y risg o syrthio, er enghraifft glanhau storfeydd cnydau neu beiriannau prosesu cnydau.

Bu farw **gweithiwr fferm** ar ôl iddo syrthio o beiriant sychu glaswellt. Roedd yn gweithio yn ystod y nos ac yn defnyddio brws llaw ar uchder i lanhau rhannau o'r peiriant. Nid oedd unrhyw beth i'w ddiogelu rhag syrthio. Daethpwyd o hyd iddo gydag anafiadau i'r pen y bore canlynol, a bu farw y diwrnod wedyn.

- Ystyriwch a oes ffyrdd o wneud y gwaith sy'n osgoi gweithio ar uchder. Er enghraifft, efallai fod modd gwneud y gwaith glanhau o'r ddaear neu o bompren gan ddefnyddio offer glanhau â choesau hir.
- Os na ellir osgoi gweithio ar uchder, ceisiwch eich diogelu eich hun rhag syrthio drwy ddarparu llwyfan gweithio addas gyda mesurau diogelwch parhaol neu dros dro o amgylch yr ymylon. Fel arfer, dylai mesurau diogelu'r ymylon gynnwys, o leiaf:
  - prif reilen amddiffyn heb fod yn llai na 950 mm o uchder (neu 910 mm ar gyfer rheiliau sy'n bodoli eisoes);
  - troedfwrdd sy'n atal pobl, deunyddiau neu wrthrychau rhag syrthio; a
  - rheilen amddiffyn ganolog neu rywbeth tebyg fel nad oes bwlch o fwy na 470 mm.
- Yn eithriadol, o dan rai amgylchiadau, gall fod yn fwy priodol defnyddio offer atal syrthio, er enghraifft harneisiau diogelwch. Pan ddefnyddir y cyfryw offer, mae'n rhaid darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ddigonol. Dylai fod gennych systemau i archwilio'r mannau angori a'r trefniadau achub mewn argyfwng i ryddhau'r gweithiwr os defnyddir offer atal syrthio.
- Ystyriwch ffyrdd eraill o wneud y gwaith cyn penderfynu gweithio o ysgol. Yn aml bydd yn fwy diogel, yn haws ac yn gyflymach defnyddio llwyfan gweithio symudol sy'n codi, llwyfan gweithio ar wagen fforch-godi, neu sgaffald tŵr.

Llwyfannau gweithio ar wagenni fforch-godi

Ar gyfer gwaith a gynlluniwyd neu waith rheolaidd ar uchder, dylech ddefnyddio llwyfan gweithio hollol integredig a adeiladwyd yn gywir. Bydd ganddo reolyddion sydd wedi'u cysylltu â rheolyddion y wagen ac sy'n eu hynysu fel mai dim ond rhywun ar y llwyfan a all reoli'r llwyfan a symudiadau'r wagen. Fel arfer ni ddylech ddefnyddio llwyfan gweithio nad yw wedi'i integreiddio (gweler Nodyn Canllaw PM28 HSE yn 'Dargafod mwy').

Cafodd **gweithiwr fferm** anafiadau i'w ben wrth osod pibellau newydd uwchben. Roedd yn sefyll mewn bwced a oedd wedi'i gysylltu â llwythwr ar ben blaen tractor. Llithrodd y bibell yr oedd yn ei dal a syrthio ar lifer rhyddhau mecanyddol y llwythwr. Tipiodd y bwced a syrthiodd dros 2 m i'r ddaear lle y tarodd ei ben ar baled.

- Gosodwch lwyfannau ar beiriannau addas yn unig - wagenni fforch-godi â mastiau fertigol neu freichiau telesgopig fel arfer.
- Edrychwch ar wybodaeth y gwneuthurwr/cyflenwr i sicrhau bod y wagen a'r llwyfan gweithio yn cydweddu â'i gilydd.
- Defnyddiwch lwyfannau gweithio ar beiriannau sydd â 'chlo' gwyro/rhyddhau yn unig, i atal y llwyfan rhag gwyro ar ddamwain.
- Defnyddiwch lwyfannau gweithio a adeiladwyd yn briodol sydd â diogelwch ymylon llawn yn unig.
- Sicrhewch fod unrhyw glwydi yn y diogelwch ymylon yn agor tuag at i mewn, tuag at i fyny neu i'r ochr, ac yn cau yn awtomatig.
- PEIDIWCH BYTH â gweithio o baledau, blychau tatws, bwcedi neu fforchau.

Cafodd **gweithiwr fferm** anafiadau i'w ben pan syrthiodd ef a'r blwch tatws yr oedd yn gweithio ohono, 4 m o fforchau triniwr deunyddiau. Roedd yn gweithio mewn storfa datws yn tynnu'r offer profi tymheredd er mwyn ei wirio. Wrth i'r cerbyd gael ei symud at yr offer profi nesaf, pwysodd allan o un ochr y blwch, gan achosi iddo syrthio o'r fforchau i'r llawr concrid islaw.

- Sicrhewch fod y llwyfan gweithio wedi'i gysylltu â'r wagen yn gywir.
- Gosodwch sgriniau neu giardiau addas ar y llwyfan fel na ellir mynd i unrhyw rannau peryglus o'r mast neu'r fraich.
- Rhaid i'r unigolyn yn y llwyfan reoli ei symudiad bob amser a rhaid iddo wisgo harnais corff cyfan addas â llinyn atal gweithio.
- Sicrhewch fod y wagen fforch-godi a'r llwyfan wedi'u harchwilio gan berson cymwys yn ystod y chwe mis diwethaf.
- Sicrhewch fod uchafswm y bobl y gellir eu cario, a'r llwyth gwaith diogel, yn cael eu harddangos ar y llwyfan.

Gweler 'Darganfod mwy' am ganllawiau manwl ar ddefnyddio llwyfannau gweithio ar wagenni fforch-godi.

Ysgolion

Os ydych yn bwriadu defnyddio ysgol i gyflawni tasg, ailystyriwch! Mae llawer o anafiadau ym myd ffermio bob blwyddyn yn deillio o ysgolion yn llithro i'r ochr neu allan o'r gwaelod, neu rywun yn syrthio oddi ar yr ysgol. Yn aml bydd yn gyflymach ac yn fwy diogel defnyddio llwyfan ar eich wagen fforch-godi neu ar sgaffald tŵr. Dim ond pan fetho popeth arall a phan nad oes ffordd fwy diogel o wneud y gwaith y dylid defnyddio ysgolion.

Cafodd **gweithiwr fferm** anafiadau difrifol i'w goes pan syrthiodd oddi ar ysgol. O dan oruchwyliaeth, roedd yr hyfforddai 16 oed yn ceisio trwsio rhigol drws tua 4.5 m o'r ddaear. Roedd asesiad risg wedi nodi y dylid defnyddio cawell ar wagen fforch-godi neu sgaffald tŵr. Fodd bynnag, penderfynodd y goruchwyliwr ddefnyddio'r ysgol ar gyfer y dasg fer. Estynnodd y gweithiwr ifanc yn rhy bell, llithrodd a syrthiodd.

- Aseswch y dasg yn gywir i benderfynu pa offer y dylid ei ddefnyddio. Defnyddir ysgolion yn aml ar gyfer gwaith y gellid ei wneud yn fwy diogel, ac yn gyflymach o offer megis llwyfan gweithio ar wagen fforch-godi, neu sgaffald.
- Os defnyddir ysgolion dro ar ôl tro i gyrraedd yr un man, ee i lenwi tanc storio disel neu hopran porthiant, gosodwch ddyfais lenwi isel, ysgol sefydlog, neu o leiaf rai bachau y gellir gosod pen eich ysgol symudol ynddynt.

Cafodd **ffermwr** anafiadau angheuol i'w ben pan syrthiodd oddi ar ysgol wrth atgyweirio to adeilad fferm. Roedd yn gosod dalenni to ar dalcen yr adeilad. Pwysodd yr ysgol bren yn erbyn y talcen ond oherwydd goleddf ymyl y to nid oedd yr estyll ar ben yr ysgol wedi'u dal yn gyfartal, a thybir i'r ysgol lithro. Daethpwyd o hyd iddo yn gorwedd yn anymwybodol wrth ymyl yr ysgol gydag anafiadau i'w ben a bu farw yn ddiweddarach.

Syrthiodd **gweithiwr fferm** pan lithrodd gwaelod yr ysgol yr oedd yn gweithio arni. Roedd yn gweithio y tu mewn i adeilad gydag ysgol a oedd yn rhy hir. I wneud iawn am hyn, roedd yn defnyddio'r ysgol, heb draed arni, ar ongl a oedd yn rhy fas.

Syrthiodd **ffermwr** oddi ar ysgol wrth wneud gwaith cynnal a chadw ar uchder o tua 2-3 m. Nid oedd gwaelod yr ysgol wedi'i osod yn sownd a dim ond un droed rwber oedd iddi, a oedd wedi'i difrodi. Wrth iddo ymestyn drosodd, symudodd yr ysgol, gan achosi iddo syrthio oddi arni.

- Sicrhewch fod yr ysgol yn ddiogel ac na all lithro. Clymwch hi ar y top, neu defnyddiwch ddyfais sefydlogi addas i'w hatal rhag llithro. Mae clymu'r ysgol yn fwy effeithiol na gofyn i rywun ei dal ar y gwaelod. Er enghraifft, os yw ysgol yn fwy na 5 m o hyd, go brin y bydd person ar waelod yr ysgol yn gallu ei hatal rhag llithro.
- Ystyriwch ddefnyddio ychwanegiadau diogelwch megis lefelwr ysgolion y gellir ei addasu, neu far taenu 'stand off'.
- Rhowch yr ysgol ar yr ongl gywir. Dylid ei rhoi ar ongl o un allan am bob pedwar i fyny. Er mwyn eich helpu chi, efallai y bydd y gwneuthurwr wedi nodi'r ongl gywir ar ochr yr ysgol.
- Defnyddiwch ysgol sydd o'r hyd cywir, neu y gellir ei hymestyn i'r hyd cywir.
- Archwiliwch yr ysgol am unrhyw ddiffygion, a sicrhewch mai dim ond pobl sy'n gwybod sut i'w defnyddio'n gywir sy'n ei defnyddio.
- Peidiwch â gweithio gydag ysgolion o fewn pellter llorweddol o 6 m o leiaf o unrhyw linellau trydan uwchben oni bai bod perchennog y llinellau wedi atal y cyflenwad trydan iddynt neu wedi eu diogelu gan ddefnyddio deunydd ynysu dros dro. Os ydych yn gwneud gwaith gerllaw llinellau trydan uwchben yn rheolaidd, holwch a ellir symud y llinellau.

Gweler 'Darganfod mwy' am ganllawiau manylach ar ddefnyddio ysgolion.

Defnyddio contractwyr

Am amryw resymau, mae gwaith cynnal a chadw adeiladau neu waith adeiladu ar ffermydd yn aml yn cael ei wneud gan gontractwyr. Er bod y gwaith yn cael ei wneud gan rywun arall, mae gennych rwymedigaethau cyfreithiol o hyd:

- Gwnewch ymholiadau rhesymol i sicrhau bod y contractwr yn gymwys i wneud y gwaith yn ddiogel.
- Cytunwch ar sut y caiff y gwaith ei wneud er mwyn sicrhau diogelwch. Efallai y byddwch am gael cytundeb ysgrifenedig.
- Sicrhewch fod contractwyr yn ystyried nid yn unig eu diogelwch eu hunain a diogelwch eu gweithlu, ond hefyd eich diogelwch chi, diogelwch eich gweithlu, a diogelwch unrhyw un arall. Er enghraifft, sicrhewch fod gan gontractwyr gynlluniau i ddarparu mesurau diogelu addas wrth unrhyw ymylon agored a grëir ganddynt y gallwch chi neu eich gweithwyr syrthio oddi arnynt.
- Sicrhewch nad yw'r gweithgareddau a gyflawnir ar eich fferm yn peryglu gweithlu'r contractwr. Er enghraifft, symudwch ein peiriannau a'ch da byw o fannau lle y bwriedir codi sgaffaldiau.
- Cyhyd ag y bo'n rhesymol o dan yr amgylchiadau, dylech fonitro gwaith contractwyr i sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel, ac ymyrryd, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, os nad ydynt yn gwneud hynny.

Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2007 (Rheoliadau CDM)

O fis Ebrill 2007, mae'r Rheoliadau CDM yn gymwys i bob prosiect adeiladu, gan gynnwys prosiectau ar ffermydd. O fewn y Rheoliadau CDM ceir rhai dyletswyddau cyffredinol sy'n gymwys i bob prosiect adeiladu, a rhai na fydd ond yn gymwys os yw'r prosiect yn un hysbysadwy. Bydd angen hysbysu HSE o brosiect os bydd y cyfnod adeiladu yn para am fwy na 30 o ddiwrnodau, neu 500 o ddiwrnodau unigolyn (oni bai ei fod ar gyfer cleient domestig).

Mae'r Rheoliadau CDM yn gosod dyletswyddau ar gleientiaid, dylunwyr, cydgysylltwyr CDM, prif gontractwyr a chontractwyr. Fodd bynnag, nid oes gan gleientiaid domestig y dyletswyddau hyn os ydynt wedi trefnu i rywun wneud gwaith adeiladu ar eu cartref, ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion busnes.

Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu a wneir ar fferm yn gysylltiedig â busnes y fferm. Os ydych yn trefnu i rywun wneud gwaith adeiladu, dyma ddylai ddigwydd:

- Mae angen i chi sicrhau bod y bobl a benodir gennych yn gymwys i wneud y gwaith.
- Dylai'r dylunydd (pensaer/peiriannydd strwythurol ac ati) eich hysbysu o'ch dyletswyddau fel cleient.
- Bydd angen i chi roi gwybodaeth berthnasol i'r rhai y bydd arnynt ei hangen, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y safle neu'r gwaith adeiladu neu wybodaeth sy'n effeithio arnynt, y defnydd y bwriedir ei wneud o'r strwythur fel gweithle, yr isafswm amser a ganiateir i'r contractwr wneud gwaith cynllunio a pharatoi, ac unrhyw wybodaeth mewn ffeil iechyd a diogelwch sy'n bodoli eisoes.
- Mae angen i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer rheoli'r prosiect gan bobl â dyletswyddau o dan Reoliadau CDM yn addas, ac y parheir â'r trefniadau drwy gydol y prosiect.
- Os yw'r prosiect yn un hysbysadwy mae angen i chi benodi cydgysylltydd CDM. Y cydgysylltydd yw eich prif gynghorydd a bydd yn eich helpu gyda'r agweddau iechyd a diogelwch ar y prosiect.
- Mae angen i chi sicrhau bod darpariaeth les addas ar gyfer gweithwyr safle.
- Bydd y cydgysylltydd yn llunio'r ffeil iechyd a diogelwch ar ddiwedd prosiect hysbysadwy, a ddylai gael ei throsglwyddo i chi a'i chadw ar gyfer unrhyw waith a wneir yn y dyfodol. Dylid diweddaru unrhyw ffeil iechyd a diogelwch sy'n bodoli eisoes.

Os ydych yn gwneud y gwaith adeiladu eich hun, neu'n gweithredu fel contractwr, bydd gennych ddyletswyddau eraill o dan Reoliadau CDM.

Cofiwch mai syrthio o uchder yw achos mwyaf cyffredin anafiadau difrifol a marwolaethau o ran gwaith adeiladu. Os yw eich contractwyr yn gymwys byddant yn gallu cynllunio'r gwaith i atal y risg y bydd pobl yn syrthio o uchder. Wrth ddewis contractwr addas gofynnwch sut mae'n bwriadu ymdrin â'r risg o syrthio - bydd hyn yn rhoi rhyw syniad i chi o'i gymhwysedd o ran iechyd a diogelwch.

Darganfod mwy

Health and safety in roof work HSG33 (Ail argraffiad) HSE Books 1998 ISBN 978 0 7176 1425 7

Health and safety in construction HSG150 (Trydydd argraffiad) HSE Books 2006 ISBN 978 0 7176 6182 4

Managing health and safety in construction. Construction (Design and Management) Regulations 2007. Approved Code of Practice L144 HSE Books 2007 ISBN 978 0 7176 6223 4

Safe use of lifting equipment. Lifting Operations and Lifting Equipment Regulations 1998. Approved Code of Practice and guidance L113 HSE Books 1998 ISBN 0 11 079598 9

Don't fall for it Fideo HSE Books 1999 ISBN 978 0 7176 1950 4

Working platforms (non-integrated) on forklift trucks Nodyn Canllaw PM28 Trydydd agraffiad 2005. Cewch edrych arno am ddim yn www.hse.gov.uk/workplacetransport/pm28.pdf

The Work at Height Regulations 2005: A brief guide Leaflet INDG401 HSE Books 2005 (un copi am ddim neu becynnau o 10 ISBN 978 0 7176 2976 3) Fersiwn gwe: www.hse.gov.uk/pubns/indg401.pdf

Safe use of ladders and stepladders: An employers' guide Taflen INDG402 HSE Books 2005 (un copi am ddim neu becynnau o 5 ar werth ISBN 978 0 7176 6105 3) Fersiwn gwe: www.hse.gov.uk/pubns/indg402.pdf

Top tips for ladder and stepladder safety Cerdyn poced INDG405 HSE Books 2005 (un copi am ddim neu becynnau o 25 ar werth ISBN 978 0 7176 6127 5) Fersiwn gwe: www.hse.gov.uk/pubns/indg405.pdf

Safe working on glasshouse roofs Taflen Wybodaeth ar Amaethyddiaeth AIS12 HSE Books 1994

Tower scaffolds Taflen Wybodaeth ar Adeiladu CIS10(rev4) HSE Books 2005

Rhagor o wybodaeth

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth a chyhoeddiadau HSE sydd am ddim ar gael drwy archebu drwy'r post o: HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim i lawr o wefan HSE: www.hse.gov.uk.)

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch, ffoniwch Linell Wybodaeth HSE Ffôn: 0845 345 0055 Ffacs: 0845 408 9566 Ffôn testun: 0845 408 9577 e-bost: hse.infoline@natbrit.com neu ysgrifennwch i Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

Mae'r daflen hon ar werth mewn pecynnau o 15 o HSE Books, ISBN 978 0 7176 6283 8. Mae copïau unigol am ddim hefyd ar gael o HSE Books.

©ⓗ *Hawlfraint y Goron* Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, arnodi neu fasnachu. Cyhoeddwyd gyntaf 03/07. Cydnabyddwch y ffynhonnell fel HSE.